# Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y pen yn yr UE

## 13 Mawrth 2012

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn hwn yn rhoi crynodeb bras a dadansoddiad o'r ffigurau CMC y pen a gyhoeddwyd gan Eurostat (swyddfa ystadegau'r UE) ar 13 Mawrth 2012.[1]

Mae'r ffigurau'n berthnasol i Gymru oherwydd bydd y categori rhanbarthol (ac o ganlyniad i ddwyster y cymorth ariannol) y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn gymwys iddo yn y rownd nesaf o Gronfeydd Strwythurol yr UE (2014-2020) yn cael ei benderfynu ar sail gan sut y bydd eu CMC y pen yn cymharu â chyfartaledd yr UE (ceir esboniad mwy manwl isod).

## Prif Ffigurau

- CMC y pen **yng Nghymru** gyfan yn 2009 oedd 79.8 y cant o gyfartaledd yr UE27, a hwnnw oedd y ffigur isaf o 12 ardal NUTS-1 y DU.[2]
- CMC y pen yng **Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd** yn 2009 0edd 68.4 y cant o gyfartaledd yr UE27 , a hwnnw oedd yr isaf o 37 ardal NUTS-2 y DU.
- CMC y pen yn **Nwyrain Cymru** yn 2009 0edd 99.3 y cant o gyfartaledd yr UE27, a hwnnw oedd y deuddegfed uchaf o 37 ardal NUTS-2 y DU.
- Mae ffigurau CMC y pen diweddaraf Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn is nag erioed o'r blaen, o'u cymharu â chyfartaledd yr UE27 yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.
- Yn 2009, roedd CMC y pen yn 271 o ranbarthau NUTS-2 yr UE27 yn amrywio o 27 y cant o gyfartaledd yr UE yn rhanbarth Severozapaden ym Mwlgaria, i 332 y cant o'r cyfartaledd yng Nghanol Llundain yn y DU.
- Cofnododd un o bob pedwar rhanbarth NUTS-2 yn yr UE ffigurau is na 75 y cant o gyfartaledd yr UE27.
- Cafwyd canlyniadau tebyg, neu union yr un fath, gan nifer o ranbarthau NUTS-2 yr UE27 a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 2009, gan gynnwys Západné Slovensko yn Slovakia (68.4 y cant), Puglia yn yr Eidal (68.9 y cant) a Moravskoslezsko yng Ngweriniaeth Tsiec (67.6 y cant).
- Nodwch: mae'r holl ffigurau yn y ddogfen hon wedi eu cyfleu yn ôl safonau pŵer prynu (PPS) sef uned arian artiffisial sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn lefelau prisiau cenedlaethol nad yw cyfraddau cyfewid yn eu hystyried. Mae'r uned hon yn caniatau ar gyfer cymharu dangosyddion economaidd gwledydd mewn modd ystyrlon.

## Cymhwyso ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol

Bydd cymhwyso ar gyfer olynydd y Rhaglen Gydgyfeirio yn cael ei benderfynu gan ddefnyddio ffigyrau CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr EU27 yn ystod y cyfnod tair blynedd diweddaraf o ffigurau sydd ar gael pan gaiff y penderfyniad ei wneud.

Yn ystod y cyfnod tair blynedd diweddaraf, sef 2007-2009, CMC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd oedd 70.1 y cant o gyfartaledd yr UE27 - sy'n is na'r trothwy cymhwyso, sef 75 y cant o gyfartaledd yr UE27.

---

[1] Eurostat News Release, *Regional GDP*, 13 Mawrth 2012. Mae rhagor o ddata ar wefan Eurostat yma.

[2] Mae dadansoddiad yr Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion (NUTS) yn cynnig dadansoddiad unffurf ar gyfer cynhyrchu ystadegau rhanbarthol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Mae tair lefel NUTS yn y DU, sef:
- NUTS 1: Rhanbarthau Swyddfeydd Llywodraeth a'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- NUTS 2: 37 ardal. Cyfeirir atynt yn aml fel is-ranbarthau.
- NUTS 3: 133 ardal, yn gyffredinol grŵp o awdurdodau unedol neu ardaloedd, sy'n cael eyu galw'n ardaloedd lleol hefyd.

## Dadansoddi perfformiad, 2000 - 2009

Mae tabl 1 yn dangos CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27 ar gyfer y DU, ardaloedd NUTS-1 a NUTS-2 yng Nghymru, rhanbarthau blaenorol 'Amcan Un' eraill a'r unig ardal 'Cydgyfeirio' arall yn y DU, sef Cernyw ac Ynysoedd Sili.

**Tabl 1: CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27** (ar gyfraddau cyfnewid pŵer prynu ar baredd)

(% o gyfartaledd yr UE27)

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2007-2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 119 | 120 | 120 | 122 | 124 | 122 | 120 | 116 | 112 | 110.7 | 113.1 |
| **Glannau Mersi** | 86 | 84 | 89 | 88 | 87 | 86 | 85 | 82 | 79 | 79.2 | 80.2 |
| **De Swydd Efrog** | 88 | 89 | 90 | 91 | 94 | 93 | 92 | 89 | 83 | 82.1 | 84.5 |
| **Cernyw ac Ynysoedd Sili** | 69 | 71 | 77 | 79 | 78 | 75 | 78 | 74 | 73 | 71.9 | 73.2 |
| **Ucheldiroedd ac Ynysoedd** | 84 | 84 | 86 | 87 | 92 | 91 | 87 | 85 | 83 | 84.4 | 84.1 |
| **Cymru** | 89 | 89 | 90 | 91 | 92 | 91 | 89 | 85 | 81 | 79.8 | 82.0 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | 75 | 75 | 76 | 76 | 77 | 78 | 76 | 73 | 69 | 68.4 | 70.1 |
| **Dwyrain Cymru** | 112 | 116 | 114 | 117 | 118 | 112 | 111 | 107 | 102 | 99.3 | 102.7 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata Eurostat a datganiad i'r wasg. (Nodyn: Mae Eurostat wedi cyhoeddi data 2009 ardaloedd NUTS-1 a NUTS-2 hyd at un pwynt degol. Mae'r data ar gyfer cyfnodau diwygiedig blynyddoedd cynt wedi eu cyhoeddi fel rhifau cyfan yn unig.

Mae tabl 1 yn dangos:

- yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2009, roedd CMC y pen yng Nghymru fel canran o gyfartaledd y DU ar ei uchaf yn 2004, sef 92n y cant. Ers hynny, mae'r ffigur wedi gostwng, o'i gymharu â chyfartaledd yr UE27, i 79.8 y cant yn 2009. Yn yr un modd, cafwyd gostyngiad o 18.7 pwynt canran yn ffigur Dwyrain Cymru er 2004.
- rhwng 2005 a 2009, cafwyd gostyngiad o 9.6 pwynt canran o gyfartaledd yr UE 27 mewn CMC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- er bod ffigyrau Cernyw ac Ynysoedd Sili ar gyfer 2003 i 2009 yn dangos gostyngiad o'u cymharu â chyfartaledd yr UE27, mae CMC y pen y rhanbarth wedi gwella ychydig o'i gymharu â chyfartaledd yr EU27 yn ystod y 10 mlynedd yn y tabl, gan godi o 69 y cant yn 2000 i 71.9 y cant yn 2009.
- yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2009 mae CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27 wedi gostwng yng Nghymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru (Gan 9.2, 6.6 a 12.7 o bwyntiau canran yn y drefn honno).

**Tabl 2: CMC y pen fel canran o gyfartaledd yr UE27 – ardaloedd NUTS-2 a NUTS-3 yng Nghymru** (ar gyfraddau cyfnewid pŵer prynu ar baredd)
(% o gyfartaledd yr EU27 )

| | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | 119 | 120 | 120 | 122 | 124 | 122 | 120 | 116 | 112 | 111 |
| **Cymru** | 89 | 89 | 90 | 91 | 92 | 91 | 89 | 85 | 81 | 80 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | 75 | 75 | 76 | 76 | 77 | 78 | 76 | 73 | 69 | 68 |
| Ynys Môn | 57 | 65 | 63 | 65 | 68 | 68 | 67 | 65 | 63 | 64 |
| Gwynedd | 75 | 77 | 85 | 88 | 84 | 88 | 84 | 80 | 77 | 76 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 76 | 72 | 75 | 75 | 78 | 78 | 73 | 70 | 69 | 66 |
| De Orllewin Cymru | 70 | 72 | 65 | 68 | 68 | 76 | 74 | 71 | 65 | 66 |
| Y Cymoedd Canolog | 72 | 73 | 79 | 76 | 76 | 74 | 70 | 70 | 65 | 64 |
| Cymoedd Gwent | 69 | 66 | 66 | 65 | 70 | 66 | 66 | 61 | 59 | 58 |
| Pen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot | 82 | 79 | 84 | 82 | 78 | 84 | 82 | 82 | 81 | 76 |
| Abertawe | 96 | 92 | 97 | 96 | 99 | 96 | 94 | 84 | 81 | 83 |
| **Dwyrain Cymru** | 112 | 116 | 114 | 117 | 118 | 112 | 111 | 107 | 102 | 99 |
| Sir Fynwy a Chasnewydd | 117 | 120 | 110 | 119 | 126 | 122 | 122 | 109 | 108 | 105 |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | 124 | 130 | 129 | 133 | 134 | 127 | 123 | 123 | 117 | 112 |
| Sir y Fflint a Wrecsam | 103 | 104 | 104 | 99 | 98 | 97 | 98 | 94 | 87 | 90 |
| Powys | 83 | 85 | 89 | 95 | 92 | 80 | 79 | 77 | 70 | 64 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata Eurostat. (Nodwch: Mae Eurostat wedi cyhoeddi'r data ar gyfer 2009 ar gyfer ardaloedd NUTS-2 hyd at un pwynt degol. Mae'r data ar gyfer cyfnodau diwygiedig blynyddoedd cynt wedi eu cyhoeddi mewn rhifau cyfan yn unig. Mae data NUTS-3 ar gael mewn rhifau cyfan yn unig. Er cysondeb dim ond rhifau cyfan sydd yn y tabl hwn.

Dylid nodi, mewn rhai rhanbarthau gall ffigyrau CMC y pen gael eu dylanwadu'n fawr gan lif cymudo. Mae llif cymudo net i mewn i'r ardaloedd hyn yn codi'r lefel gynhyrchu i lefel na fyddai modd ei chyrraedd gan boblogaeth yr ardal yn unig. Y canlyniad yw bod amcangyfrifon CMC y pen y rhanbarthau hyn yn ymddangos yn rhy fawr, ac yn rhy fach mewn rhanbarthau lle bo pobl yn cymudo allan ohonynt. Bydd gan 'yr effaith gymudo' hon fwy o ddylanwad ar lefelau daearyddol is  a dylid cofio hyn wrth ystyried ffigurau lefel NUTS 3.

Yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd a ddangosir yn y tabl, mae pob ardal NUTS 3, oni bai am Ynys Môn a Gwynedd, yn dangos gostyngiad mewn CMC y pen o'i gymharu â chyfartaledd yr UE27.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **CMC Rhanbarthol y pen yn yr UE**, cysylltwch â **Ben Stokes** (**ben.stokes@Cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Mae **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/research**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu drwy anfon e-bost at **Research.Service@cymru.gov.uk**

Lluniwyd y Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond nid oes modd iddynt roi cyngor i'r cyhoedd. **Rhif Ymholiad: 12/0817**